



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen Canfyddiadau allweddol ynghylch Hyfforddiant, Cymorth ac Arweiniad

Crynodeb o'r Ymchwil

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 54/2014

Mae'r Cyfnod Sylfaen (a gyflwynwyd yn 2008) yn cynnig cwricwlwm o ddysgu trwy brofiad, sy'n briodol o ran datblygiad plant 3 i 7 oed yng Nghymru. Nod y gwerthusiad annibynnol (dan arweiniad WISERD), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yw gwerthuso pa mor dda y caiff ei roi ar waith, beth fu ei effaith, a ffyrdd o'i wella. Mae'r gwerthusiad tair blynedd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cymysg ar raddfa genedlaethol a lleol.

Dyma un o bedwar papur sy'n canolbwyntio ar **weithredu**. Mae'n cwmpasu 341 o gyfweiliadau ag ymarferwyr, 604 o ymatebion gan ysgolion a lleoliadau i arolwg, 37 cyfweiliad ag Awdurdodau Lleol a phedwar cyfweiliad â lleoliadau nas cynhelir.

Canfyddiadau Allweddol

- At ei gilydd, roedd penaethiaid ac arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn **fodlon yn gyffredinol â'r hyfforddiant, cymorth ac arweiniad** a roddwyd, er, pan ofynnwyd iddynt beth fyddent yn fwyaf awyddus i'w newid am y Cyfnod Sylfaen o edrych yn ôl, gosodwyd 'deunyddiau cymorth' a 'hyfforddiant' yn uchel yn y ddau achos.
- Datgelodd arsylwadau astudiaethau achos fod athrawon a ddywedodd eu bod wedi cwblhau mwy o fodiwlau hyfforddi'r Cyfnod Sylfaen yn meddu ar **ddealltwriaeth well a barn fwy cadarnhaol** am y Cyfnod Sylfaen.
- Ac eithrio Blwyddyn 1, ar gyfartaledd, fe wnaeth 66% o'r holl **athrawon** a arsylwyd a 100% o **arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir** nodi eu bod wedi cwblhau yr 8 modiwl hyfforddi Llywodraeth Cymru ar y Cyfnod Sylfaen.
- Y farn gyffredinol oedd bod **negeseuon cymysg** gan Lywodraeth Cymru yn golygu fod ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn galw am fwy o arweiniad strwythuredig a theilwredig, ac roedd rhanddeiliaid yn gofyn am fwy o ddeunyddiau enghreifftiol a therminoleg gliriach.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Canfyddiadau Allweddol Pellach

Hyfforddiant

At ei gilydd, roedd mwyafrif helaeth yr arweinwyr o'r farn bod yr hyfforddiant gan eu Hawdurdod Lleol yn **'ddefnyddiol iawn'**.

Roedd y lleiafrif a *fyddai* yn newid yr hyfforddiant wedi nodi bod **negeseuon cymysg**, er enghraifft y ffocws cychwynnol ar chwarae, sydd wedi newid i addysgu sgiliau sylfaenol erbyn hyn, wedi arwain at **gamddealltwriaeth ymhlith ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen am sut i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen fel y'i bwriadwyd**.

At ei gilydd, byddai arweinwyr y Cyfnod Sylfaen wedi gwerthfawrogi **mw y o ymweliadau dilynol** ar ôl yr hyfforddiant cychwynnol, yn ogystal â **mw y o hyfforddiant parhaus**.

Ar gyfartaledd, dywedodd 37% o ymarferwyr ysgol a 60% o ymarferwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir **eu bod wedi cwblhau yr 8 modiwl Cyfnod Sylfaen**.

Dywedodd mw y o athrawon mewn

dosbarthiadau meithrin, dosbarthiadau derbyn ac oedran cymysg eu bod wedi cael **hyfforddiant parhaus** o gymharu ag athrawon ym Mlynnyddoedd 1 a 2.

Roedd **mw y o ymarferwyr ymhlith yr ysgolion olaf a gyflwynodd y Cyfnod Sylfaen** wedi a) adrodd am gwblhau yr 8 modiwl Cyfnod Sylfaen a b) adrodd am gwblhau nifer uwch ar gyfartaledd o fodiwlau wedi'u cwblhau nag ysgolion Dechrau'n Gynnar neu Ysgolion Peilot.

Datgelodd data o arsylwadau dosbarth fod **mw y o hyfforddiant ar y Cyfnod Sylfaen wedi arwain at fwy o weithgareddau ymarferol, gweithgar yn gorfforol ac yn yr awyr agored**, ond llai o fyfyrion.

Cymorth

Roedd 61% o arweinwyr y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a 44% o arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir o'r farn bod **cynadleddau blynyddol Llywodraeth Cymru** yn **'ddefnyddiol iawn'**.

Roedd mwyafrif y penaethiaid o'r

farn fod **Swyddogion Cymorth a Hyfforddiant ac Ymgynghorwyr y Cyfnod Sylfaen** o Awdurdodau Lleol yn croesawu'r ymagwedd newydd at y cwricwlwm **yn fawr** gyda 40% yn dweud eu bod wedi chwarae 'rhan fawr' yng ngweithrediad yr ysgol o'r Cyfnod Sylfaen.

Roedd 84% o arweinwyr y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir o'r farn fod **y cymorth a'r cyngor a roddwyd yn 'ddefnyddiol iawn'**, ond:

- Dywedodd rhai penaethiaid fod y cymorth cychwynnol yn wahanol i'r negeseuon sy'n eu cyrraedd nawr – ac y byddai'n **well ganddynt fwy o gymorth penodol i'r ysgol** yn gyffredinol.
- Dywedodd rhai arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir fod lefel y cymorth a gawsant ar y cychwyn yn anfoddhaol ond eu bod wedi **elwa'n fawr o'r athrawon cyswllt**.
- Roedd ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir o'r farn bod diffyg cymorth ar gyfer **dysgu yn yr awyr agored ac asesu a monitro plant** (gallai hyn fod yn gysylltiedig â rôl arsylwi).

Arweiniad

Roedd y *rhan fwyaf* o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg cenedlaethol o'r farn bod y deunyddiau arweiniad yn **'ddefnyddiol iawn'** ar gyfer gweithredu mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir. Ond, roedd *rhai* o'r farn bod y dogfennau arweiniad yn rhy amwys, ac nad oedd y geiriad a'r deunyddiau enghreifftiol yn glir (e.e. y defnydd o'r gair 'chwarae'), a wnaeth, yn ei dro, achosi **anghysondeb yn y ffordd yr oedd ymarferwyr yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen**.

Teimlai rhai ymarferwyr o'r astudiaethau achos fod y deunyddiau arweiniad yn rhy feichus ac yn hwyr yn cyrraedd, **ac o ganlyniad teimlai'r ymarferwyr nad oeddent yn barod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen**.

Yn gyffredinol, dywedodd y rhai a gafodd eu cyfweld o awdurdodau lleol eu bod yn **fodlon â sut cafodd y Cyfnod Sylfaen ei weithredu yn eu hawdurdod lleol**, er eu bod yn ymwybodol o **amrywiaeth mewn gweithredu gan ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir**, ac roedd hyn o

ganlyniad i safbwyntiau a
dealltwriaeth ymarferwyr o'r Cyfnod
Sylfaen.

Awduron: Mirain Rhys, Samuel
Waldron, Chris Taylor (Prifysgol
Caerdydd)

2 Mehefin 2014

ISBN: 978-1-4734-1474-7